

Wythnos Addysg Oedolion 18 - 24 Mehefin 2018

Canllawiau Cronfa Arloesedd

Rydym eisiau i bawb gyflawni pob uchelgais a photensial o ran dysgu, gwaith, a thrwy gydol eu bywydau. Mae hyrwyddo dysgu a sgiliau yn rhan hanfodol o'r gwaith a wnawn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru.

Gyda'n gilydd fe wnawn wahaniaeth: yn yr 8 mlynedd ddiwethaf mae 74,000 o oedolion yng Nghymru wedi gweithredu'n gadarnhaol oherwydd ein hymgyrchu. Rydym yn gweithio'n gydweithredol i droi hyrwyddo cenedlaethol yn weithredu lleol, gan weithio gydag ystod o ddarparwyr addysg a rhanddeiliaid i gyflenwi gweithgareddau ledled Cymru.

Wythnos Addysg Oedolion (18-24 Mehefin 2018)

Mae Wythnos Addysg Oedolion yn ymgyrch flynyddol sy'n dathlu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Yn cael ei hyrwyddo gan y Cenhedloedd Unedig, mae'r Wythnos Addysg Oedolion wedi datblygu mewn mwy na 40 o wledydd ym mhob rhan o'r byd.

Trwy gydol yr ŵyl mae digwyddiadau allgymorth a gweithgaredd hyrwyddo yn cynnig cyfle i brofi sgiliau newydd, cael gwybodaeth am gyrsiau, darganfod ble i fynd i gael cyngor a chefnogaeth a gwneud cysylltiadau gwell mewn cymunedau. Rydym eisiau i fwy o bobl gael eu hysbrydoli i ddatblygu eu sgiliau; er mwyn eu hiechyd, eu teuluoedd, eu cyflogaeth, ac i gryfhau cymunedau.

Mae'r ymgyrch yn darparu ambarél i hyrwyddo a dathlu dysgu ffurfiol ac anffurfiol gydol oes ac fe hoffem weithio gydag unrhyw bartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru sy'n gweithio gydag oedolion, cymunedau a theuluoedd.

Gofynnir i chi ddefnyddio'r Wythnos Addysg Oedolion i hyrwyddo'r hyn ydych chi'n ei wneud, profi ffyrdd newydd o weithio, lansio gweithgaredd newydd, cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, cael hwyl chanu clodydd addysg oedolion a theuluoedd.

Mae gennym gronfa gyfyngedig o arian ac rydym yn ddiolchgar i'r holl bartneriaid sy'n cefnogi'r ymgyrch gyda digwyddiadau arbennig ac allgymorth, gan ddefnyddio'ch cyllidebau, adnoddau a noddwyr presennol. Rydym wedi creu Cronfa Arloesedd i ddarparu

peth cymorth i sefydliadau a phartneriaethau ble gallai ychydig o gyllid ychwanegol wneud gwahaniaeth mawr!

Sut gallwch chi gymryd rhan: y cyllid ar gael

Mae Cronfa Arloesedd 2018 ar gael i sefydliadau yn gweithio yng Nghymru sydd eisiau darparu gweithgareddau neu ddigwyddiadau allgymorth yn ystod yr **Wythnos Addysg Oedolion** a **thrwy gydol** mis Mehefin.

Rydym yn chwilio am weithgareddau sy'n greadigol ac a all gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn enwedig yr oedolion hynny sydd heb gymryd rhan mewn dysgu ers peth amser, ac sydd â'r potensial i ysgogi diddordeb y cyfryngau. Gellid defnyddio'r gweithgaredd i:

- Hyrwyddo cymryd rhan mewn dysgu
- Cynyddu mynediad i wybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Hwyluso sesiynau blasu byr neu roi cynnig arni

Ni ellir defnyddio'r Gronfa Arloesedd ar gyfer:

- Prosiectau ymchwil
- Cynhyrchu deunyddiau cwrs
- Cyrsiau sydd eisoes wedi'u sefydlu

Pwy all ymgeisio?

Croesawn geisiadau gan unrhyw grŵp, sefydliad neu bartneriaeth. Rydym yn arbennig o awyddus i ariannu sefydliadau sy'n **gweithio gyda'i gilydd** yn eu hardal. Hoffem gefnogi grwpiau a all fod yn gweithio gydag ystod o asiantaethau a ble gall oedolion sy'n dysgu fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau neu'n rhan o'r gweithgaredd hyrwyddo.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i sefydliadau su'n targedu unigolion neu grwpiau nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio cyfleoedd dysgu a sgiliau yn lleol fel bod gweithgaredd yn ateb **angen lleol**, a phan fydd yn addas bydd llwybrau at gyfer **symud ymlaen** at fwy o addysg neu ddatblygu sgiliau.

Dyma rai enghreifftiau o sefydliadau a lleoliadau a gymerodd ran yn ein hymgyrchoedd blaenorol: Gweithleoedd, Amgueddfeydd ac Oriolau, Llyfrgelloedd, Grwpiau Cymunedol, Grwpiau Theatr a Chelfyddydol, Clybiau Chwaraeon, Sinemâu, Ysbytai a Chanolfannau Iechyd, Canolfannau Hamdden, Tafarndai a Chaffes, Papurau Newydd a Radio Lleol,

Cymdeithasau Tai, Undebau Llafur a Sefydliadau Cyflogwyr, Carchardai a'r Gwasanaeth Prawf, Cartrefi Preswyl, Canolfannau Gwaith, Archfarchnadoedd a Siopau, Canolfannau Trafnidiaeth yn cynnwys bysus a threnau.

Mae yna wahanol lefelau o gyllido sef:

	Cyllid ar gael	Swm	Meini Prawf	Enghreifftiau
Cymuned Ddysgu (tref, dinas, sir, rhanbarth)	£3,000	Mae un dyfarniad o hyd at £3,000 ar gael i bartneriaeth.	Mae'r dyfarniad hwn am ddull cymunedol i hyrwyddo dysgu a sgiliau ar draws yr ardal leol. Dylai'r prosiect ddangos dull partneriaeth i hyrwyddo a chyflenwi dysgu gydol oes - gweithio gydag ystod o randdeiliaid a all gynnwys: cyflogwyr, undebau llafur, darparwyr dysgu (cymunedol, Addysg Bellach/Addysg Uwch), cymdeithasau tai ac ysgolion. Dylai'r dull ddangos fod dysgwyr sy'n oedolion yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau neu ran o'r gweithgaredd hyrwyddo.	Bydd y rhai sy'n llwyddo i dderbyn y grant hwn yn: <ul style="list-style-type: none"> dangos gwir ymroddiad i wella hyder, mynediad at sgiliau a chariad at ddysgu yn eu hardal leol gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer ymgyrch o ddigwyddiadau trwy gydol cyfnod Mehefin 2018, neu raglen wedi'i thargedu. rhaid i'r cais ddangos sut mae'r driniaeth yn ymateb i anghenion a ddynodwyd yn lleol. <p>Efallai y byddai gennych ddi-ddordeb yng ngwaith Bryste a Vancouver</p>
Grantiau Hyrwyddo Dysgu	£200-£1,500	Mae dyfarniadau o rhwng £200 a £1,500 ar gael i sefydliadau neu bartneriaethau	Mae'r dyfarniadau hyn ar gyfer sefydliadau neu bartneriaethau sydd eisiau cyflenwi gweithgaredd yn ystod yr Wythnos Addysg Oedolion neu trwy gydol Mehefin 2018 i hyrwyddo cyfleoedd dysgu i oedolion, gan eu hannog i gymryd rhan mewn dysgu.	Enghreifftiau o'r hyn y gallai'r gweithgaredd sy'n cael ei ariannu ei gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Sesiynau blasu byr neu sesiynau ymgysylltu i ddenu pobl yn ôl at addysg, i roi cynnig ar rywbeth newydd Gweithgaredd wedi ei dargedu ar gyfer grŵp penodol o ddysgwyr, gweithleoedd neu leoliadau cymunedol i fynd i'r afael ag angen a ddynodwyd Gweithgaredd hyrwyddo arloesol i ddenu dysgwyr o'r newydd yn ôl at ddysgu

Sut y caiff eich cais ei asesu

Bydd eich cais yn cael ei asesu yn erbyn ceisiadau eraill, sy'n cystadlu am gyllid. Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried wrth asesu ceisiadau:

- Pan fydd yn addas, dangos dull gweithio mewn **partneriaeth**.
- Efallai y gallech ddangos defnydd o arian cyfatebol – a allai olygu amser staff neu adnoddau o'r math hwnnw.
- Yr angen i sicrhau fod unigolion a chymunedau **nad ydynt ar hyn o bryd** yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu oedolion yn cael eu targedu.
- Cynigion arloesol a **chreadigol** – a all gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Lle mae **dysgwyr presennol** yn cymryd rhan mewn cyflenwi a hyrwyddo'r prosiect neu yn y prosesau gwneud penderfyniad. Gwyddom fod gair ar dafod leferydd yn gwneud gwahaniaeth.
- Tystiolaeth o **gynllun hyrwyddo** cyson sy'n targedu'r wasg a chyfryngau lleol a/neu genedlaethol ac yn ymgysylltu â'ch Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol a chynghorwyr i gael yr effaith fwyaf bosib trwy'r gweithgaredd.
- Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i geisiadau sy'n dangos eu bod yn rhan o **gynllunio** dysgu a sgiliau yn lleol / rhanbarthol fel bod y gweithgaredd yn ateb angen lleol ac yn agor llwybrau, pan fydd hynny'n addas, tuag at ragor o ddysgu neu ddatblygu sgiliau.
- Ceisiadau sy'n cysylltu gyda rhai neu'r cyfan o'r pedair thema yn [Ffyniant i Bawb](#) er enghraifft trwy fynd i'r afael ag iechyd a lles, canolfannau cymunedol ac ysgolion, llwybrau i gyflogaeth, materion yn ymwneud â heneiddio ac unigrwydd.

Dyddiadau cau a beth sy'n digwydd nesaf?

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **23 Mawrth 2018** a bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu yn ystod yr wythnos yn dechrau **9 Ebrill 2018**.

Bydd pawb sy'n trefnu digwyddiadau ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion yn cael mynediad i set 'digwyddiad mewn blwch' o ddeunyddiau i helpu hyrwyddo eu digwyddiad neu weithgaredd. Bydd pob digwyddiad yn cael ei hyrwyddo trwy'n gwefan, sianelau cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r wasg a chyfryngau lleol a chenedlaethol.

Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gyflwyno'r canlynol:

- **Adroddiad gwerthuso ar-lein** wedi ei gwblhau'n llawn a fydd yn rhoi tystiolaeth ddigonol fod y gweithgaredd a ddynodwyd yn y cis wedi ei gyflawni. Rhaid i ffurflenni gwerthuso gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau.
- **Ffurflenni Adborth Dysgwyr** wedi eu llenwi. Disgwyliwn i drefnwyr digwyddiadau annog pawb neu gynifer ag sy'n bosibl o rai sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau i lenwi ffurflenni adborth dysgwyr a fydd yn ein helpu i asesu effaith y gweithgaredd ymgyrchu. Rhaid i ffurflenni adborth dysgwyr gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau.
- Disgwyliwn i bob gwybodaeth am ddigwyddiadau gael ei **uwchlwytho'n ddwyieithog** ar ein calendr digwyddiadau ar-lein.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government